



Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

Low Down

Terfynau Cyflymder 20mya

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT) ar effeithiolrwydd terfynau cyflymder 20mya wedi'i chyhoeddi. Mae'n cynnwys tystiolaeth o 700km o ffyrdd â therfynau 20mya newydd mewn 12 o ardaloedd astudio a data o fannau tebyg lle nad oes terfynau 20mya wedi'u gosod, at ddibenion cymharu.

Edrychodd yr ymchwil ar y canlynol:

- Adborth o fwy na 5,400 o holiaduron gan amryw o ddefnyddwyr ffordd i ddod o hyd i'w hargraffiadau o derfynau cyflymder 20mya a newidiadau mewn ymddygiad personol wrth yrru
- Dadansoddiad o ganlyniadau cyflymder, ar sail data ar gyflymder siwrneiau dros 18 miliwn o gilometrau mewn cerbydau ar ddyfeisiau GPS yn y car, a data ar gyflymder yn y fan a'r lle mewn mwy na 400 o leoliadau
- Dadansoddiad o bron 4,000 o wrthdrawiadau i edrych ar y canlyniadau cynnar o ran diogelwch mewn mannau sydd â therfyn cyflymder 20mya
- Tystiolaeth am y math o drafnidiaeth a ddefnyddir, ar sail y newid ymddygiad a nodwyd gan yr ymatebwyr eu hunain.

Casgliadau'r ymchwil yw:

- Bod y mwyafrif o drigolion a gyrwyr o blaid terfynau cyflymder 20mya
- Mai gostyngiad bach sydd wedi bod yn y cyflymder cyfartalog – llai nag un 1mya
- Bod cerbydau a oedd yn mynd yn gyflymach cyn i'r terfyn cyflymder 20mya gael ei gyflwyno wedi arafu'n fwy na cherbydau a oedd eisoes yn mynd yn teithio'n llai cyflym
- Nad oes digon o dystiolaeth i gasglu bod newid o bwys wedi bod o ran gwrthdrawiadau, anafiadau a marwolaethau yn sgil cyflwyno terfynau cyflymder 20mya
- Bod canllawiau'r DfT yn dal yn weddol ddilys, ar sail canfyddiadau'r astudiaeth. Yn ôl y canllawiau hyn, pan ddisgwylir cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch ar y ffyrdd a derbyniad ffafriol yn gyffredinol gan y trigolion lleol, fe ddylai'r awdurdodau traffig ystyried defnyddio terfynau cyflymder 20mya fesul ardal:
 - ar strydoedd mawr lle ceir, neu lle gellid cael, niferoedd arwyddocaol o siwrneiau ar droed, a/neu lle mae symudiadau ar gefn beic yn ystyriaeth bwysig, a bod hyn yn bwysicach na'r anfantais o greu amser siwrnai hirach i draffig modur
 - ar strydoedd preswyl sy'n cael eu defnyddio gan bobl ar droed ac ar gefn beic, lle ceir cefnogaeth gymunedol, a lle mae nodweddion y stryd yn addas; a hynny ar y rhagdybiaeth bod y terfynau'n eu gorfodi eu hunain ar y cyfan ac na ddylid disgwyl i'r heddlu wneud gwaith gorfodi ychwanegol ar ben eu gwaith arferol, oni bai bod hyn wedi'i gytuno'n bendant.

YN Y RHIFYN HWN:

Ymchwil ar Derfynau Cyflymder 20mya
Diwygio Rheolau'r Ffordd Fawr
Gwobr i Ymgyrch SNAP
20 mlynedd o NCAP
Cynnydd Byd-eang yn Nifer y
Marwolaethau ar y Ffyrdd
Diogelwch ar Driongl EVO
Adnabod Peryglon



[Gweld yr adroddiad ar y prif benawdau](#)

Mae'r adroddiad technegol manwl ar gael [yma](#).

Diwygio Rheolau'r Ffordd Fawr



Bydd diwygiadau i Reolau'r Ffordd Fawr yn helpu i gadw beicwyr a cherddwyr yn fwy diogel ar y ffordd. Bydd y fersiwn newydd yn amlygu sut i osgoi peryglon pasio'n agos, ac yn annog pobl i fabwysiadu 'dull yr Iseldiroedd' wrth agor drws car, sef dull sy'n defnyddio'r llaw sydd bellaf oddi wrth y ddolen, gan orfodi'r gyrrwr i edrych dros ei ysgwydd i chwilio am draffig sy'n pasio.

Dywedodd y Gweinidog Trafnidiaeth, Jesse Norman, "Mae gan Brydain rai o'r ffordd mwyaf diogel yn y byd, ond mae angen iddyn nhw fod yn fwy diogel byth i bawb – yn

enwedig i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd sy'n agored i niwed.

Yn fwyfwy mae cerdded a beicio yn cael eu deall fel rhannau allweddol o ddull integredig o fynd i'r afael â materion iechyd, gordewdra, ansawdd aer a chynllunio trefi a dinasoedd. Ond dim ond os yw pobl yn teimlo'n ddiogel ar y ffordd y bydd hyn yn digwydd."

Mae'r Adran Drafndiaeth wedi cyhoeddi diweddariad hefyd o [Lawlyfr y Safon Genedlaethol ar Hyfforddiant Beicio](#), ac ynddo'r arferion gorau diweddaraf ar feicio'n ddiogel.

Gwobr Diogelwch Ffyrdd i Ymgyrch SNAP



Ers 1987 mae Gwobrau Diogelwch Ffyrdd Rhyngwladol y Tywysog Michael yn cydnabod y rhai sydd wedi gwella diogelwch ar y ffordd yn rhyngwladol. Ar 11 Rhagfyr, aeth Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru (GanBwyll) i'r cyflwyniad mawreddog yn y Savoy, Llundain, i dderbyn gwobr gan Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Michael o Gaint ar eu menter arloesol, Ymgyrch SNAP.

Cafod Ymgyrch SNAP ei dyfeisio mewn ymateb i geisiadau gan y cyhoedd i'r heddlu ymateb a mynd i'r afael â throseddau traffig a welir gan gyfryngau fel dashcam, camerâu helmed neu fideo personol. Hwn oedd y prosiect cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio prosesau ac adnoddau a sefydlwyd gan GanBwyll.

Nod y prosiect yw atal gyrrwr rhag gwneud penderfyniadau gwael neu beryglus y tu ôl i'r llyw, gan weithio ar y sail os bydd gyrrwr yn credu y gallen nhw gael eu herlyn am yrru'n wael na fydden nhw'n ymddwyn felly, gan leihau'r tebygrwydd o wrthdrawiad.

Cyn Ymgyrch SNAP byddai trosedd nodweddiadol yn cymryd 15 awr i'w brosesu; bellach mae'n cymryd 15 munud ar gyfartaledd. Gan fod rhyw 170 o droseddau'n cael eu cofnodi bob mis yng Nghymru, mae hyn yn arbediad misol o 2,465 o oriau i swyddogion.

Dywedodd Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaeth GanBwyll, "Mae wedi bod yn anrhydedd gweithio ar brosiect mor gyffrous, sef prosiect na allen ni fod wedi'i gyflawni heb wir bartneriaeth ar y cyd. Rydym wedi darparu ffordd gadarn a sicr o dderbyn lluniau y mae'r cyhoedd yn awyddus i'w hanfon aton ni ledled Cymru ac rydyn ni mor hapus i'w weld yn cael ei gyflwyno mewn manau eraill. Mae'n ymdrech aml-asiantaeth wirioneddol, ac mae pawb sy'n cymryd rhan wedi gweithio'n galed i'w gyflawni. Gyda'n gilydd, rydyn ni am wneud ein ffordd i gyd yn fwy diogel."

Mae'r dyfodol yn edrych yn dda i Ymgyrch SNAP, gyda mwy a mwy o aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio'r system i roi gwybod am bob math o droseddau ar y ffordd. Erbyn hyn mae heddluoedd Cymru'n gobeithio defnyddio'r system i dderbyn lluniau o droseddau eraill; gan sicrhau bod y dechnoleg sydd ar gael yn cael ei defnyddio hyd eithaf ei photensial i leihau troseddau a chadw'n ffordd a'n cymunedau'n ddiogel.

Pen-blwydd Profion NCAP yn Ewrop yn Ugain Oed



Ers 1998, mae profion gorfodol ar ddamweiniau i deithwyr mewn ceir newydd wedi sicrhau gwelliant dramatig o ran diogelwch ar y ffyrdd ledled yr Undeb Ewropeaidd. Yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r safonau ar gyfer gwrthdrawiadau o'r tu blaen ac o'r ochr wedi haneru nifer y marwolaethau ymysg teithwyr mewn cerbydau yn Ewrop gan arbed degau o filoedd o fywydau.

I ddathlu'r ugeinfed pen-blwydd a dangos y gwelliant enfawr a gafwyd o ran diogelwch pobl mewn cerbydau, mae Global NCAP wedi cynnal prawf gwrthdrawiad car yn erbyn car ar un o'r modelau uchaf ei werthiant yn Ewrop, y Ford Fiesta – un model 1998 ac un model presennol, yn teithio ar 40 mya.

Yn y prawf, mae cragen y Fiesta 1998 yn dymchwel gan greu risg o anafiadau angheuol a difrifol i'r gyrrwr a'r teithwyr. Ar y llaw arall, mae'r Fiesta modern yn gwrthsefyll yr effaith yn dda iawn gyda'r risg leiaf posibl o anafiadau sy'n bygwth bywyd.

Dywedodd David Ward, Ysgrifennydd Cyffredinol Global NCAP, "Dros yr ugain mlynedd nesaf bydd diogelwch ceir yn cael ei weddnewid unwaith eto gan dechnolegau datblygedig i helpu gyrrwyr a rhoi mwy o annibyniaeth i gerbydau. Byddwn yn symud o achub bywydau yn ystod damwain i osgoi'r gwrthdrawiad yn llwyr".

Gallwch weld fideo'r prawf [yma](#).


Adroddiad gan y WHO yn Amlygu Cynnydd Annigonol ynglŷn â Marwolaethau ar y Ffyrdd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Statws Byd-eang ar Ddiogelwch Ffyrdd ar gyfer 2018. Mae'r adroddiad yn dangos mai anafiadau traffig ffyrdd erbyn hyn yw'r prif achos marwolaeth ymysg plant a phobl ifanc 5-29 oed.

Mae marwolaethau traffig ffyrdd yn dal i gynyddu, gydag 1.35 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn. Er gwaethaf y targed uchelgeisiol a bennwyd gan yr Agenda Datblygu Cynaliadwy, sef haneru nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i ddamweiniau traffig ffyrdd erbyn 2020 yn fyd-eang, mae'r WHO wedi nodi:

- bod mwy na hanner yr holl farwolaethau traffig ffyrdd yn digwydd ymysg defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed: cerddwyr, beicwyr a gyrrwyr beiciau modur.
- bod 73% o'r holl farwolaethau traffig y ffyrdd yn digwydd ymysg dynion ifanc o dan 25 oed sydd bron tair gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd mewn damwain traffig ffyrdd na menywod ifanc.
- bod damweiniau traffig ffyrdd yn costio 3% o'u cynnyrch mewnwladol crynswth i'r mwyafrif o wledydd.
- bod 93% o farwolaethau'r byd ar y ffyrdd yn digwydd mewn gwledydd isel a chanolig eu hincwm, er mai rhyw 60% o gerbydau'r byd sydd gan y gwledydd hyn

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod y pris sy'n cael ei dalu am symudedd yn rhy uchel a bod angen cymryd camau mawr i roi mesurau arbed bywyd ar waith. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).



Gwelliannau Diogelwch ar Driongl EVO



Mae'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Ken Skates, wedi cyhoeddi y bydd diogelwch ar y rhwydwaith ffyrdd y cyfeirir ato fel 'triongl EVO' yn gwella, diolch i fuddsoddiad o £500,000 gan Lywodraeth Cymru.

Yn sgil y cyllid, a fydd ar gyfer cyfnod cyntaf cynllun diogelwch, bydd camerâu cyflymder cyfartalog yn cael eu gosod ar yr A543 yn Sir Ddinbych a Chonwy, sef yr adran o driongl EVO sydd â'r nifer uchaf o wrthdrawiadau wedi'u cofnodi. Bydd hefyd yn caniatáu i'r gwaith dylunio a'r gwaith rhagarweiniol gael ei wneud ar gyfer ail gyfnod, sef cyfnod terfynol, y cynllun llawn.

Mae enghreifftiau o yrru'n beryglus ar gyflymder gormodol wedi'u gweld ar y llwybr a nod y cynllun hwn, o dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y cyd, yw ceisio mynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath.

Camerâu cyflymder cyfartalog yw'r dull gorfodi mwyaf helaeth a pharhaus, a fydd yn gwneud y llwybr yn llai deniadol i'r rhai sy'n bwriadu torri'r terfyn cyflymder.

Cyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £40,000 i'r awdurdodau lleol i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar y llwybr a chafodd grŵp ymarferwyr diogelwch ffyrdd ei sefydlu i ystyried materion yn yr ardal.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Ken Skates, "Fe roddais gyfarwyddyd i gynghorau Sir Ddinbych a Chonwy gydwethio'n agos i ddatblygu ffordd well o leihau gyrru peryglus, a gwneud hynny'n flaenoriaeth. Bydd hyn yn mynd i'r afael â phroblemau yn ardal Triongl EVO, a dwi'n falch ei fod yn cael cefnogaeth Grant Diogelwch Ffyrdd gwerth £500,000 gan Lywodraeth Cymru.

"Diogelwch fydd yr ystyriaeth gyntaf bob amser wrth fuddsoddi yn ein rhwydwaith ffyrdd, a bydd gosod camerâu cyflymder cyfartalog yn yr ardal hon yn gymhelliad i arafu ac yn creu amodau gwell i drigolion lleol, busnesau a'r rheini sydd eisoes yn gyrru'n ofalus.

"Rydyn ni am i bawb fod yn ddiogel ac yn gyfrifol wrth ddefnyddio ein ffyrdd, a bydd cyhoeddiad heddiw yn help i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu pobl wrth deithio ar hyd y ffordd hon."

Profion Adnabod Peryglon mewn Amodau Gwael

Mae'r DVSA wedi cyhoeddi newidiadau yn y prawf adnabod peryglon posibl er mwyn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd. Ym Mhrydain Fawr yn 2017, digwyddodd 16,406 o ddamweiniau mewn glaw, eirlaw, eira neu niwl ac o'r rhain, bu 205 yn anghuol.

Mae clipiau CGI newydd wedi'u hychwanegu at y prawf theori gyrru i efelychu amodau tywydd gwael gan gynnwys eira, gwynt, niwl a glaw. Bydd yna glipliau hefyd yn dangos y math o olau lefel isel a geir wrth iddi nosi a gwawrio.

Dywedodd Jesse Norman, y Gweinidog Trafnidiaeth, "Mae'r clipiau adnabod perygl newydd hyn yn cynnig amodau gyrru mwy realistig i brofi gallu'r dysgwr, gan eu paratoi i oresgyn yr heriau bywyd go iawn a fydd yn eu hwynebu ar y ffordd – sef rhywbeth a ddylai fod o fudd i bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd."

Mae clipiau enghreifftiol i'w gweld [yma](#).



Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar: Facebook [@roadsafetywales](#)
Twitter [@roadsafetywales](#)